Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Enfys
# Clayton Road
# Yr Wyddgrug
# Sir y Fflint
# CH7 1SU
# Y Deyrnas Unedig

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2015**

## Cyd-destun

Mae Canolfan Enfys yn uned cyfeirio disgyblion a gynhelir gan Gyngor Sir y Fflint. Fe agorodd yn 2012. Mae'n ganolfan asesu y Cyfnod Sylfaen sy'n cynnig lleoliadau i hyd at 25 o ddisgyblion rhwng 3 a 7 oed, pan fydd ansicrwydd ynghylch eu prif anghenion.

Nod y ganolfan yw asesu anghenion unigol disgyblion, cynorthwyo cynnydd mewn meysydd targedig a hwyluso pontio i leoliadau priodol.

Ar hyn o bryd, mae 16 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae deg disgybl o oed meithrin yn mynychu naill ai pum sesiwn yn y bore neu'r prynhawn. Mae chwe disgybl o oed derbyn a hŷn yn mynychu'r ganolfan ar sail amser llawn. Caiff derbyniadau i'r UCD eu rheoli trwy banel cymedroli'r awdurdod lleol. Daw bron iawn pob un o'r disgyblion o aelwydydd Saesneg. Mae gan bob un o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ddau ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ailgyfansoddwyd y pwyllgor rheoli yn Ionawr 2015. Penodwyd yr athrawes â gofal ym Medi 2013.

Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r lleoliad hwn gan Estyn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr UCD | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r UCD | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y ganolfan yn dda oherwydd:

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol, gan eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg
- Mae profiadau dysgu wedi eu cynllunio'n dda ac yn gyffrous, ac maent yn ysgogi disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus
- Gwna staff ddefnydd effeithiol o'r lle sydd ar gael, ac mae adnoddau o ansawdd da
- Mae tasgau'n cyfateb yn dda i allu disgyblion a'u cyflawniad blaenorol
- Mae gan y ganolfan ethos cadarnhaol, lle caiff pob un o'r disgyblion eu parchu a'u gwerthfawrogi

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ganolfan yn ddigonol oherwydd:

- Mae gan yr athrawes â gofal ymdeimlad cryf o bwrpas ac mae'n cyfathrebu gweledigaeth glir ar gyfer y ganolfan
- Mae staff yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol fel tîm
- Mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion
- Mae staff yn cael hyfforddiant priodol ac yn gwneud defnydd da o gyngor i wella deilliannau i ddisgyblion
- Mae gan y ganolfan ystod dda o bartneriaethau effeithiol

Fodd bynnag:

- Er bod yr UCD yn casglu data, nid yw'n ei ddadansoddi'n ddigon gofalus ar lefel strategol bob tro er mwyn llywio gwella'r ysgol
- Nid yw rôl strategol y pwyllgor rheoli wedi ei datblygu'n ddigonol
- Nid yw'r broses hunanarfarnu yn defnyddio tystiolaeth o arsylwi addysgu a dysgu

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Mynd i'r afael â'r diffygion mewn diogelu ac iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A3 Datblygu rôl strategol y pwyllgor rheoli

A4 Sicrhau y caiff pob polisi ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddaru

A5 Cryfhau hunanarfarnu trwy gynnwys tystiolaeth a geir trwy arsylwi addysgu

A6 Gwella'r defnydd o ddata i lywio cynllunio gwelliant strategol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn ymateb yn dda i ethos meithringar y ganolfan ac yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau personol a chymdeithasol. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Symudodd pob un o'r disgyblion a adawodd y ganolfan rhwng Medi 2012 ac Awst 2014 i ddarparwyr dysgu eraill yn llwyddiannus.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yng Nghanolfan Enfys â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau mewn perfformiad cyffredinol dros amser, oherwydd yr ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol disgyblion.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu hyder ac yn gwella eu gallu i fynegi eu hunain, sy'n amlwg wrth iddynt chwarae rôl. Gallant wrando ac ymateb i gyfarwyddiadau syml yn llwyddiannus, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu sy'n briodol i'w hanghenion a'u gallu. Er enghraifft, mae disgyblion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig yn gwneud dewisiadau ac yn cyfleu eu hanghenion yn effeithiol gan ddefnyddio system cyfnewid lluniau. Mae disgyblion ag anghenion cyfathrebu mwy cymhleth yn defnyddio ystod o synau ac ystumiau i gyfathrebu dewis ac ymateb i gwestiynau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn dangos diddordeb mewn llyfrau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw i gof y prif ddigwyddiadau o stori y maent wedi gwrando arni. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth o destun trwy gyfateb symbolau i ddigwyddiadau mewn stori. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dangos medrau darllen sy'n unol â'u hoedran a deilliannau priodol y Cyfnod Sylfaen.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd addas â'u medrau ysgrifennu cynnar ac yn gwneud marciau yn hyderus mewn amrywiol ffyrdd, er enghraifft wrth iddynt dynnu lluniau mewn hambyrddau tywod. Gall disgyblion mwy abl drosysgrifo llythrennau â rheolaeth gynyddol, a gall ychydig iawn ohonynt ysgrifennu eu henwau.

Dros amser, gwna llawer o ddisgyblion gynnydd addas â'u medrau rhifedd. Gall llawer o ddisgyblion ddidoli a pharu lliwiau a siapiau'n gywir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif yn hyderus â'i gilydd ar gof i 10. Gall lleiafrif ohonynt baru rhifau a symbolau hyd at 10. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu hiaith fathemategol yn briodol, fel defnyddio "mawr" a "bach" wrth gymharu maint dau neu fwy o wrthrychau. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn nodi siapiau dau-ddimensiwn cyffredin. Er enghraifft, gallant enwi a didoli siapiau i setiau o gylchoedd, sgwariau a phetryalau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o arfau ac offer bach â rheolaeth a chywirdeb cynyddol, fel wrth beintio lluniau, chwarae â hambyrddau tywod ac adeiladu ffyrdd â blociau.

Gwna’r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd addas o ran dysgu i reoli symudiadau’r corff. Maent yn datblygu eu hyder gan ddefnyddio offer i gydbwyso, sboncio, neidio a thynnu yn ystod sesiynau ymarfer corff.

Gwna ychydig iawn o ddisgyblion ddefnydd effeithiol o’r rhyngrwyd i ymchwilio a defnyddio prosesu geiriau’n dda i gofnodi eu gwaith. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy’n defnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol i ddatblygu eu medrau TGCh, ac yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh i chwarae gemau sy’n ategu eu dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarchion yn y Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yng Nghanolfan Enfys yn dangos mwynhad yn eu gwersi ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cyfranogi’n dda ac yn gweithio’n frwdfrydig. Maent yn ffurfio perthynas gadarnhaol â staff ac yn meithrin cyfeillgarwch â’u cyfoedion. Mae hyn yn arwyddocaol o ystyried datblygiad cymdeithasol disgyblion pan fyddant yn cyrraedd y ganolfan.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gadw’n iach. Dros amser, maent yn magu’r hyder i roi cynnig ar fwydydd newydd. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth o eitemau bwyd sy’n iachach na rhai eraill. Mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymarfer corff, er enghraifft gan ddefnyddio offer dringo, cerbydau â phedalau a thwneli. Maent yn datblygu chwarae cydweithredol yn dda trwy ddefnydd creadigol o offer corfforol.

Gyda chymorth priodol, mae disgyblion yn datblygu’r gallu i wneud y penderfyniadau cywir ynghylch eu hymddygiad, ac mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella dros amser. Roedd chwarter y disgyblion yn destun gwaharddiadau am gyfnod penodol yn eu hysgolion blaenorol. Fodd bynnag, ni fu unrhyw waharddiadau am gyfnod penodol na gwaharddiadau parhaol yn y ganolfan yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Mae disgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr. Maent yn garedig ac yn gyfeillgar tuag at bobl eraill. Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ofal trwy ofalu am anifeiliaid bach, er enghraifft Olive, sbaniel y ganolfan, sy’n cael ei hyfforddi trwy gynllun ‘anifeiliaid anwes fel therapi’.

Mae presenoldeb yn y ganolfan, sef 95%, yn dda iawn. Mae ychydig o’r disgyblion wedi dangos gwelliant sylweddol yn eu presenoldeb ers cael eu derbyn i’r ganolfan. I lawer, dyma’r tro cyntaf iddynt fynychu’r ysgol yn rheolaidd am ddiwrnod llawn neu hanner diwrnod. Mae hyn yn un o gryfderau’r ganolfan.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Gwna'r ganolfan ddefnydd effeithiol o'r amgylchedd dan do ac awyr agored i ddarparu ystod eang o gyfleoedd diddorol a chyffrous i ddisgyblion ddysgu trwy chwarae ac archwilio. Er enghraifft, mae ardaloedd dysgu â llawer o adnoddau ym mhob ystafell ddosbarth yn galluogi disgyblion i archwilio ystod eang o ddeunyddiau, golau a sain, a chymryd rhan mewn chwarae rôl. Mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau dan arweiniad oedolion a'r rhai sy'n cael eu dewis gan ddisgyblion.

Mae staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd i gynllunio gweithgareddau dysgu sydd â ffocws priodol ar feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae cynllunio gwersi yn ddigon hyblyg i alluogi staff i addasu neu newid ffocws gweithgareddau i ymateb yn briodol i ddiddordebau a galluoedd disgyblion.

Mae'r ganolfan yn darparu cyfleoedd gwerthfawr a buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy gydol pob sesiwn. Mae athrawon yn cynllunio sesiynau grŵp â ffocws yn dda ac yn defnyddio amser yn effeithiol i ddatblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy ddathlu gwyliau fel Dydd Gŵyl Ddewi. Mae staff yn darparu cyfleoedd defnyddiol, fel 'Helpwr Heddiw', i gynorthwyo datblygiad Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, caiff cyfleoedd cyfyngedig eu darparu ar gyfer ymweliadau i ffwrdd o'r safle â mannau o ddiddordeb lleol.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl staff yn dangos dealltwriaeth glir o arfer y Cyfnod Sylfaen. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n cydweddu'n dda ag anghenion unigol disgyblion. Maent yn darparu ystod eang o weithgareddau symbylol i ddisgyblion, ynghyd ag adnoddau o ansawdd uchel sy'n ysgogi disgyblion ac yn cynnal eu diddordeb.

Mae staff yn defnyddio holi gofalus i wirio dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl. Maent yn eu hannog i archwilio ac ymchwilio drostynt eu hunain. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad yn dda.

Mae'r holl staff yn rhoi adborth llafar adeiladol i ddisgyblion, sy'n eu hysgogi ac yn eu helpu i gadw at y dasg.

Gwna staff ddefnydd effeithiol o arsylwadau â ffocws i greu cofnodion manwl o gynnydd disgyblion. Mae'r cofnodion hyn yn galluogi staff i ddarparu darlun clir o gryfderau pob disgyblion a'r meysydd y mae angen iddynt eu datblygu. O ganlyniad, mae staff yn gosod targedau clir i ddisgyblion sy'n canolbwyntio'n dda ar eu hanghenion unigol.

Mae adroddiadau adolygu manwl a dyddiaduron addysgiadol dyddiol rhwng yr ysgol a'r cartref yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn wybodus am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae staff y ganolfan yn gweithio'n effeithiol fel tîm i greu amgylchedd gofalgar a chyfeillgar.

Gwna'r ganolfan drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n darparu ystod eang o weithgareddau corfforol i ddisgyblion, er enghraifft ymarfer corff dyddiol yn y neuadd sy'n gysylltiedig â rhaglen datblygu iaith.

Mae ystod o strategaethau priodol ar waith i wella ymddygiad disgyblion. Mae perthynas gadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn hyrwyddo ymddygiad da ymhellach. Fodd bynnag, nid yw digwyddiadau sy'n mynnu ymyrraeth gorfforol gan staff yn cael eu cofnodi'n ddigon manwl.

Mae staff yn annog disgyblion i chwarae gyda'i gilydd mewn awyrgylch o oddefgarwch a dealltwriaeth yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Gwna'r ganolfan ddefnydd da o wasanaethau arbenigol i gynorthwyo disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cymorth gwerthfawr gan therapyddion a seicolegwyr addysg.

Mae gan y ganolfan weithdrefnau effeithiol i asesu anghenion ychwanegol disgyblion. Lle y bo'n briodol, mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y broses asesiadau statudol. Hefyd, mae'r wybodaeth yn helpu staff i nodi lleoliadau addas ar gyfer y disgyblion yn y dyfodol.

Caiff targedau perthnasol mewn cynlluniau addysg unigol a chynlluniau iaith a lleferydd eu harddangos yn amlwg ledled y ganolfan. Mae disgyblion yn ymwybodol o dargedau addas ar gyfer eu hymddygiad ac yn ymateb yn dda iddynt. Mae'r ganolfan yn rhannu targedau â rhieni a gofalwyr. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu cynnwys ddigon bob tro mewn gosod targedau i ddechrau.

Mae trefniadau'r ganolfan ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion yn gyffredinol, ond mae rhai meysydd sy'n destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ganolfan yn darparu amgylchedd cynorthwyol a chadarnhaol iawn, sy'n helpu disgyblion i fagu hyder. Mae ffocws cryf ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Caiff disgyblion o bob cefndir ac â phob angen eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar yr ysgol, a chânt eu trin â pharch ac urddas. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw fath o wahaniaethu yn effeithiol.

Mae'r adeilad yn darparu amgylchedd dysgu symbylol i ddisgyblion, sy'n cael ei gynnal a chadw'n dda.

Mae gan yr ystafelloedd dosbarth adnoddau da i fodloni anghenion dysgu disgyblion a gofynion y cwricwlwm. Mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnwys digon o ardaloedd a chyfleoedd i chwarae'n greadigol. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'r brif neuadd ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau corfforol a gweithgareddau dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr athrawes â gofal weledigaeth glir ar gyfer Canolfan Enfys. Mae’r staff ymrwymedig yn gweithio’n effeithiol fel tîm i sicrhau eu bod yn cyflwyno gwerthoedd craidd cytûn y ganolfan. Maent yn teimlo eu bod yn cael gwerthfawrogi a’u cynorthwyo’n dda yn eu gwaith.

Mae’r athrawes â gofal yn darparu arweinyddiaeth gref i’r ganolfan. Er nad oes uwch dîm rheoli i rannu cyfrifoldebau, mae athrawon yn datblygu eu rôl arweinyddiaeth trwy’r trefniadau ar gyfer cynllunio a monitro’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. I gynorthwyo ei gwaith, mae’r ganolfan wedi datblygu rhwydweithiau cymorth effeithiol ar draws ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion oddi mewn i’r awdurdod ac ar draws y rhanbarth ehangach.

Mae gan yr athrawes â gofal ddisgwyliadau uchel o staff ac mae wedi datblygu gweithdrefnau defnyddiol i reoli eu perfformiad. Mae’r cynlluniau hyn wedi eu llunio’n dda ac maent yn cynorthwyo datblygiad staff ar bob lefel. O ganlyniad, mae’r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant i wella eu perfformiad.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i drafod gwaith y ganolfan.

Mae’r pwyllgor rheoli a ffurfiwyd yn ddiweddar yn dechrau cael ei ddatblygu. Mae aelodau’n cael lefel dda o fanylion am berfformiad disgyblion unigol. Mae’r pwyllgor yn gefnogol iawn o’r athrawes â gofal a’r staff. Fodd bynnag, nid oes ganddo drosolwg strategol o waith y ganolfan. Er enghraifft, nid yw’n cael ei gynnwys yn y broses hunanarfarnu na gweithdrefnau rheoli perfformiad, ac nid yw’n adolygu polisïau i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion. O ganlyniad, nid yw’r pwyllgor yn darparu’r her sydd ei hangen ar y ganolfan i’w helpu i wella.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae hunanarfarnu a chynllunio datblygiadau yn dod yn rhan reolaidd o’r cylch gwella yng Nghanolfan Enfys.

Mae’r broses hunanarfarnu, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth, yn amlygu meysydd pwysig i’w gwella, yn ogystal â chryfderau’r ganolfan. Fodd bynnag, nid yw’r adroddiad presennol yn adlewyrchu’r arfarniad yn llawn, ac mae’n rhy ddisgrifiadol.

Mae’r cynllun datblygu ysgol yn cysylltu’n dda â’r meysydd a amlygwyd i’w gwella trwy’r broses hunanarfarnu. Mae’r cynllun yn blaenoriaethu meysydd ar gyfer eu datblygu yr hoffai’r ganolfan eu gwella. Mae’n manylu ar y camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau’r gwelliannau arfaethedig, y staff dan sylw, amserlen a’r meini prawf llwyddo ar gyfer pob cam gweithredu. Caiff cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau ei fonitro’n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw’r cynllun yn nodi cost y blaenoriaethau hyn i alluogi’r ganolfan i ddyrannu cyllideb i fodloni’r costau hyn.

Mae perfformiad yr holl staff addysgu wedi ei adolygu, ac maent wedi cytuno ar dargedau personol a phroffesiynol ar gyfer gwella. Mae'r targedau hyn yn cysylltu'n dda â'r cynllun datblygu ysgol. Fodd bynnag, hyd yn hyn, ni arsylwyd addysgu yn ffurfiol. Mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ganolfan ac yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau disgyblion, er enghraifft mewn darllen ac ysgrifennu. Mae'r holl staff yn manteisio ar ystod eang o hyfforddiant, sy'n cael effaith gadarnhaol ar wella safonau a lles disgyblion.

Mae'r ganolfan yn defnyddio data perfformiad disgyblion unigol yn gyson dda i ddadansoddi cynnydd disgyblion a chynllunio ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw'r data yn llywio gwella ysgol yn ddigon dda, ac nid yw ei ddefnydd i fesur cynnydd o ran mynd i'r afael â thargedau yn y cynllun datblygu ysgol wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae Canolfan Enfys wedi meithrin partneriaethau effeithiol ag ystod eang o ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a sefydliadau. Mae'n cydweithio'n dda â thîm seicoleg addysg yr awdurdod lleol i gynorthwyo asesiad cynhwysfawr o anghenion disgyblion. Mae'r partneriaethau hyn yn canolbwyntio'n dda ar wella lles a dysgu disgyblion.

Mae ystod o asiantaethau amlddisgyblaethol priodol yn cydweithio'n agos â'r ganolfan i gynghori ac arwain staff, a darparu cymorth i ddisgyblion unigol. Er enghraifft, mae therapyddion a thechnegwyr yn asesu anghenion iaith a lleferydd disgyblion ac yn darparu cyngor parhaus i staff ar y ffordd orau i weithio â disgyblion. Yn ôl yr angen, mae'r ganolfan yn ceisio cyngor gan ddarparwyr arbenigol eraill, fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), i gynorthwyo lles disgyblion.

Mae gan y ganolfan bartneriaethau arbennig o effeithiol ag ysgolion prif ffrwd. Mae cynllunio pob trosglwyddiad i mewn ac allan o'r ganolfan yn ofalus yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym ac yn dechrau gwneud cynnydd. Mae'r ganolfan yn defnyddio staff cymorth yn hynod effeithiol i gynorthwyo disgyblion sy'n symud ymlaen i ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn helpu i sicrhau pontio llwyddiannus ac yn datblygu medrau ac arbenigedd staff prif ffrwd hefyd. Mae partneriaeth gadarn â'r ysgol brif ffrwd ar yr un safle yn galluogi disgyblion i elwa ar ddefnyddio cyfleusterau fel ysgol y goedwig. Mae'r cyfleoedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion, oherwydd eu bod yn eu galluogi i ehangu eu profiadau dysgu.

Mae staff yng Nghanolfan Enfys yn rhoi gwybodaeth reolaidd i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plant trwy ddyddiaduron dyddiol, cyfarfodydd adolygu tymhorol ac adroddiadau blynyddol.

Mae panel cymedroli'r awdurdod lleol yn rheoli cyfeiriadau at y ganolfan. Yn gyffredinol, mae'r broses hon yn sicrhau y gall y ganolfan fodloni anghenion pob disgybl sy'n mynychu'r ganolfan.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y ganolfan ystod dda o athrawon a staff cymorth profiadol â chymwysterau addas. O ganlyniad, gallant gynorthwyo'r ystod eang o anghenion unigol disgyblion yn dda.

Mae'r ganolfan wedi datblygu'n gymuned ddysgu lle mae'r holl staff yn frwdfrydig dros barhau i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol. Caiff eu datblygiad proffesiynol parhaus ei gynllunio'n dda ac mae'n alinio'n dda â chynlluniau datblygu'r ysgol.

Yn unol ag arweiniad statudol, caiff staff amser priodol i gynllunio, paratoi ac asesu.

Mae rhwydweithiau o arfer broffesiynol, er enghraifft yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd, yn cynorthwyo staff i ddatblygu eu harbenigedd ac yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu.

Mae'r ganolfan yn defnyddio ei chyllideb ddirprwyedig yn effeithiol i wella ansawdd dysgu disgyblion a chynorthwyo datblygiadau penodol. Er enghraifft, mae wedi sicrhau bod gan staff wybodaeth a medrau cyfredol yn y Cyfnod Sylfaen, ac mae wedi buddsoddi mewn adnoddau ychwanegol i gynorthwyo datblygiad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. O ystyried y safonau da y mae disgyblion yn eu cyflawni, yr addysgu effeithiol a'r adnoddau ansawdd da, mae'r ganolfan yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Sw Roberts | Arolygydd Tîm |
| Terry James Davies | Arolygydd Lleyg |
| Peter Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Carol Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg